# Y CYNGOR 24/01/13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, T.G. Ellis, Aled Ll. Evans, Jean Forsyth, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Chris Hughes, John B. Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Ll. Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Eric M. Jones, John W. Jones, Linda W. Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams. Hefin Williams, John W. Williams, R.H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Eurig Wyn

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones, Dafydd Lewis a Dilwyn Williams (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Alan Jones Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aeron Jones, Elin Walker Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion W. Jones, Dilwyn Lloyd, W. Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Owain Williams, R.J. Wright

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd John Wynn Jones.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorwyr Huw Edwards ac Eryl Jones Williams fuddiant personol yn yr eitem frys "Rhybudd o Gynnig – Penderfyniad diweddar Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd" oherwydd eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Iechyd Cymuned Gwynedd.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

i) Croesawyd y Cynghorydd Huw Edwards yn ôl i'r Cyngor ar ôl ei lawdriniaeth diweddar.

Diolchodd yr aelod i bawb am bob cefnogaeth a gafodd yn ystod ei waeledd.

ii) Llongyfarchwyd Canolfan Hamdden Dwyfor ar ennill gwobr APSE am y cynnydd mwyaf yn y Categori Sefydliadau Chwaraeon a Hamdden. Daethant i'r brig allan o saith canolfan arall drwy Brydain a lwyddodd i gyrraedd y rownd derfynol yn Blackpool.

Llongyfarchwyd hefyd Syr Dave Brailsford o Ddeiniolen, sy'n enwog yn y byd beicio, ar ei lwyddiant yn y Gemau Olympaidd.

iii) Diolchwyd i staff yr Adran Briffyrdd a fu mor ddiwyd yn clirio'r ffyrdd adeg yr eira trwm y penwythnos diwethaf. Bu brolio mawr ar eu gwaith. Hefyd yr un diolch i staff o'r adrannau eraill a fu'n cynorthwyo tros y tywydd garw ac yn arbennig yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a fu'n gyfrifol am gadw'r henoed yn ddiddos.

iv) Cynhelir gwasanaeth yn Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, fory, 25 Ionawr 2013 am 10.30 fel rhan o Ddiwrnod Coffau'r Holocaust. Mae croeso i bawb fynychu'r gwasanaeth gan ymuno â miloedd o bobl drwy'r byd i gofio'r gorffennol a gosod seiliau ar gyfer byd diogel a theg i'r dyfodol.

v) Sefydlir cronfa ganddo ar gyfer y rhai a effeithiwyd gan y llifogydd yn ddiweddar. Bwriedir derbyn cyfraniadau gan rhai sy'n dymuno cyfrannu ac yna rhannu'r arian ymysg y rhai a gyflwynir cais. Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weld yn annibynnol o'r Cyngor, bwriadai ofyn i banel o ddau neu dri o unigolion blaenllaw yn ein cymuned ei helpu i ddyrannu'r arian.

**3. COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Winston Roddick, Comisynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac hefyd i Ms Anna Humphreys, Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Diolchodd Mr Roddick am y gwahoddiad a'r croeso gan nodi mai'r Cyngor hwn oedd y Cyngor Sir cyntaf iddo ei annerch yn rhinwedd ei swydd fel comisiynydd.

Tynnodd sylw at y materion canlynol –

- Bod angen iddo greu perthynas gryf â nifer o gyrff cyhoeddus yn cynnwys cynghorau lleol.
- Bod yr awdurdod ganddo i apwyntio Prif Gwnstabl.
- Ei fod yn gyfrifol am lunio cynllun plismona a throsedd a fyddai'n cynnwys polisiau a blaenoriaethau tros y dair blynedd nesaf. Yn ogystal mae'n gyfrifol am gyflwyno cyllideb yr heddlu'n flynyddol ac am godi praesept – cyflwynir lefel bwriadedig y praesept i Banel Heddlu a Throsedd a fydd yn penderfynu lefel yr adnoddau y gellir eu darparu i'r Prif Gwnstabl i ddarparu'r gwasanaeth plismona yng

Ngogledd Cymru. Mae'r panel hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau lleol Gogledd Cymru.

- Ar 12 Rhagfyr 2012, cyhoeddodd ei swyddfa Alwad am Dystiolaeth, sef gwahoddiad i drigolion Gogledd Cymru roddi cymorth iddo greu'r Cynllun Heddlu a Throsedd trwy fynegi eu barn ar sut mae Gogledd Cymru'n cael ei blismona a.y.
- Mai'r flaenoriaeth bwysicaf yw sicrhau diogelwch yn y cartref a diogelwch mewn mannau cyhoeddus, ac er mwyn cyflawni hynny, argymhellodd i'r Panel Heddlu a Throsedd bod praesept yr heddlu am 2013/14 yn cael ei gynyddu 3.47%, sy'n gyfystyr â chynnydd o 3.98% ar y Dreth Gyngor. Derbyniwyd yr argymhelliad gan y panel. Byddai hyn yn galluogi ariannu 51 o swyddogion heddlu ychwanegol, sef cynnydd o 1,417 i 1,468.
- Iddo ymweld â gorsafoedd heddlu Caergybi, Caernarfon a Llangefni a Swyddfeydd Cymorth i Ddioddefwyr er mwyn dysgu rhagor am eu gwaith gyda dioddefwyr a thystion.
- Bod lladrata yng nghefn gwlad yn costio £52.7m yn flynyddol i'r diwydiant amaethyddol a bod yna gynnydd o 6% yn y nifer o droseddau amaethyddol.
- Bod angen i Wynedd wneud cryn ymdrech os am lwyddo i gael carchar o fewn y sir a bod Heddlu Gogledd Cymru yn gryf o blaid hynny.

Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau ar y cyflwyniad –

- Bod angen rhagor o heddweision mewn trefi/pentrefi twristaidd yn ystod tymor yr haf.
- Croesewir y bwriad i ariannu 51 o swyddogion heddlu ychwanegol.
- Bod angen rhagor o heddweision i blismona ardaloedd cefn gwlad.
- A oes bwriad i benodi swyddog pridodol yn y dair ardal a fyddai'n fodd o geisio atal lladrata o ffermydd a.y.
- Bod angen trafodaeth pellach ar y posibilrwydd o sefydlu carchar yng Ngwynedd.
- Bod oriau agor y gorsafoedd heddlu wedi eu cwtogi ac nad oes rhybuddion wedi eu gosod ynddynt yn nodi'r amseroedd agor.
- Bod pedwar o swyddogion a gyflogir gan yr heddlu yn Nyffryn Nantlle yn uniaith Saesneg.
- Nodwyd bod Pwyllgor Trwyddedu Canolog y Cyngor wedi penderfynu peidio gweithredu'r dreth hwyr y nos.
- Canfyddiad/agwedd y cyhoedd tuag at yr heddlu – sut y gellir cadarnhau bod y canfyddiad yn bositif.
- Statws yr heddlu'n wleidyddol. A ddylai heddweision a gwasanaeth yr heddlu gael ei ddatganoli.
- Y dylid meithrin perthynas dda rhwng yr heddlu a sefydliadau/partneriaethau yn ymwneud â phobl bregus yn y cymunedau.

Ymatebodd y Comisiynydd yn briodol iddynt.

Diolchwyd i'r Comisiynydd am y cyflwyniad.

## 4. DIWYGIO LLES

a) Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Cabinet Amddifadedd y datganiad canlynol –

i) Y penderfynwyd cymryd camau rhagweithiol er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau sy'n deillio o drefn Diwygio Lles Llywodraeth y DU, a olygai'n wreiddiol, y byddai tros 11,000 o bobl Gwynedd ar eu colled yn ariannol o Ebrill 2013.
ii) Y prif bryder yn deillio o'r drefn newydd oedd y byddai 8,200 o bobl Gwynedd yn gorfod talu'r Dreth Cyngor am y tro cyntaf o Ebrill 2013 ymlaen. Yn ogystal, 'roedd 3,300 o bobl Gwynedd am weld cynnydd yn eu cyfraniad presennol.
iii) Sefydlwyd Grŵp Tasg Aml-asiantaethol o fewn y sir, dan arweiniad y Cyngor, er mwyn sicrhau bod cyd-gynllunio a chydweithio'n digwydd er mwyn paratoi pobl leol ar gyfer y newidiadau gwahanol. Cytunwyd ar gynllun gwaith cynhwysfawr gan y grŵp hwn, sy'n cynnig eglurdeb ynglyn â phwy sy'n gwneud be. a hynny er mwyn sicrhau cydlynnedd yn y gwaith.
iv) Sefydlwyd tri ffrwd gwaith pwysig gan y Grŵp Tasg sef –

- Rhaglen gyfathrebu ar y cyd rhwng yr asiantaethau gwahanol fel bod trefn gytûn wrth gysylltu gyda thrigolion lleol ynglyn â'r newidiadau.
- Cynllun llythrennedd ariannol i gefnogi teuluoedd i reoli eu cyllidebau yn wyneb dyfodiad y credyd cynhwysol.
- Polisiau cyllidol a phrosesau adennill dyledion, yn bennaf drwy waith yn yr Adran Gyllid.

v) Rhoddwyd blaenoriaeth i'r gwaith hwn yn ddiweddar wrth i nifer o gynlluniau gwahanol gael eu datblygu o fewn y ffrydiau gwaith gwahanol.
vi) Fodd bynnag, ar 17 Ionawr 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd 2013, fyddai'n diwygio'r drefn a chynyddu'r lefel uchaf o gefnogaeth o 90% i 100%. Golygai hyn felly na fyddai unrhyw effaith ar y rhai oedd yn wynebu talu'r dreth Cyngor am y tro cyntaf neu'n wynebu cyfraniadau uwch. 'Roedd y newid hwn yn newyddion da gan y byddai'n parhau i ddarparu'r lefelau presennol o gefnogaeth yn 2013/14 i'r hawlwyr, ac yn talu 100% o'r Dreth Cyngor os ydynt yn gymwys.
vii) Bydd yr addasiad i reoliadau newydd 2013 yn cael effaith ar brosiect y Cyngor i liniaru effeithiau'r cynigion gwreiddiol.
viii) Bydd y prosiect yn awr yn rheoli problemau gweddilliol, megis gostyngiadau budd-dâl i gartrefi wedi eu tanfeddiannu o Ebrill 2013, Credyd Cynhwysol fyddai'n raddol yn disodli budd-dâl tai o fis Hydref 2013 a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor 2014/15.
ix) Pwysleisiodd y byddai gwaith y Grŵp Tasg yn parhau. Bydd y newidiadau tanfeddiannu, fel rhan o'r drefn Diwygio Lles, yn amharu ar yn agos i 1,350 o bobl yng Ngwynedd ac yn dod i rym yn Ebrill 2013. Mae cynllunio effaith hyn yn derbyn sylw o fewn ffrydiau gwaith y Grŵp Tasg, ynghyd â'r gwaith o baratoi pobl leol ar gyfer y credyd cynhwysol.

b) Adroddodd Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y trefniadau newydd o Ddiwygio Lles yn cael ei yrru o San Steffan. Nododd

ei fod yn symleiddio'r trefniadau budd-daliadau; ceisio annog rhagor o bobl sy'n derbyn budd-daliadau yn ôl i waith ac i geisio gwneud arbedion sylweddol o oddeutu £4 biliwn. Tynnodd sylw at yr oblygiadau i nifer fawr o drigolion Gwynedd. Rhoddodd fanylion am y newidiadau yn y broses Diwygio Lles a fyddai'n amharu ar bobl Gwynedd. Cyfeiriodd at y Credyd Cynhwysol a olygai yn lle bod budd-daliadau yn dod o sawl cyfeiriad i deuluoedd, mai un taliad fyddai teuluoedd yn eu derbyn, ond mae oblygiadau ynghlwm â hynny o safbwynt sgiliau, rheoli cyllidebau a sicrhau bod teuluoedd yn cadw arian yn ôl i dalu rhent at ddiwedd y mis. O ran y gwaith cynllunio ac ymateb i'r newidiadau hyn, sefydlwyd Grŵp Tasg Aml-asiantaethol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector, cartrefi cymunedol, cymdeithasau tai, CAB, Shelter, Age Concern a.y.

c) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Nododd aelod ei ddymuniad bod unrhyw wybodaeth perthnasol a ystyrid gan y Grŵp Tasg yn cael ei rannu gyda'r aelodau.

ii) Croesawodd aelod bod y Grŵp Tasg wedi ei sefydlu.

iii) Tynnodd aelod sylw bod angen bod yn ymwybodol bod angen hybu'r Undebau Credyd. Nododd mai sgîl effaith negyddol yw pobl eithaf amheus yn teithio o amgylch cymunedau yn cynnig benthyciadau.

iv) Nododd aelod iddo fynychu pwyllgor Cartrefi Cymunedol Gwynedd y diwrnod blaenorol ac i'r pwyllgor ddatgan bod angen rhoddi tipyn o sylw i'r trefniadau newydd drwy gydweithio â'r Cyngor.

Mewn ymateb i rhai o'r pwyntiau uchod, hysbysodd Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod angen adnabod unrhyw broblemau yn gynnar iawn a bod cydweithio a rhannu gwybodaeth yn bwysig iawn.

O ran rôl yn Undebau Credyd, mae hyn y bwysig iawn, a chynhelir trafodaethau ar hyn o bryd gydag Undeb Credyd Gogledd Cymru i weld beth y gellir ei wneud yng Ngwynedd er mwyn datblygu cynllun penodol o fewn y sir. Tynnodd sylw at bryder llawer o asiantaethau bod unigolion yn ymweld ag ystadau tai ac yn cynnig benthyg arian ar log uchel a bod angen bod yn wyliadwrus am hynny.

Nododd y Cyfarwyddwr bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn ran allweddol o'r Grŵp Tasg a bod yna gydweithrediad a chydweithio effeithiol yn digwydd gyda hwynt ar hyn o bryd. Bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn denu adnoddau sylweddol o raglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd. Tynnodd sylw at y galw o hyn ymlaen at dai llawer llai yn enwedig rhai gyda dwy lofft ac mae yna brinder am y ddarpariaeth hon.

v) Gofynnodd aelod a oes unrhyw garfan yn cael eu heithrio o'r ddeddfwriaeth hon ac a oes camau gan y Cyngor i ddiogelu plant. Gofynnodd hefyd a fyddai'n bosibl sefydlu'r Undebau Credyd ar lefel lleol.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid i'r Cyngor ar 6 Rhagfyr 2012 anfon llythyr at holl hawlwyr budd-dâl a effeithir gan y "dreth llofft", sef gostyngiadau budd-dâl tai o Ebrill 2013 i gartrefi wedi eu tanfeddiannu'n ôl rheoliadau'r "DWP". Nododd bod yna gytundeb gyda'r landlordiaid cymdeithasol bod hwy yn cymryd y cyfrifoldeb o ymweld â'r holl denatiaid hynny a effeithir.

Nododd y Pennaeth Cyllid ymhellach bod y Cyngor yn gyfrifol am dalu budd-daliadau yn unol â rheoliadau'r "DWP" a bod dim dewis heblaw gweithredu'r cwtogiad, ond bod cronfa caledi cymharol fychan ar gael i gynorthwyo tros dro mewn rhai achosion eithriadol. Un math o gais fyddai'n cael ystyriaeth fyddai teuluoedd sy'n maethu plant, gan ei fod yn ofynnol iddynt gadw un ystafell wely gwag yn eu tai ar gyfer plant a fyddai angen eu maethu yn hwyrach yn y flwyddyn. 'Roedd angen i'r Cyngor roddi blaenoriaeth i hyn wrth ddyrannu o'r gronfa caledi a chynorthwyo er mwyn sicrhau y byddai'r ystafell wely ar gael i faethu'n y dyfodol. Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid y byddai pwysau sylweddol o sawl cyfeiriad arall gan gynnwys y cymdeithasau tai, i ddyrannu o'r gronfa caledi berthnasol, ac angen i'r Cyngor flaenoriaethu'n ddarbodus.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod pensiynwyr yn Lloegr wedi eu heithrio o'r gostyngiad yn y Dreth Gyngor ond yng Nghymru fe'i weithredir yn gyson ar pob oedran, yn cynnwys pensiynwyr. Fodd bynnag, cadarnhaodd bod pensiynwyr wedi eu heithrio o'r "dreth llofft".

Hysbysodd Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod yr Undeb Credyd yn cynnig cyfleuster pwysig iawn ar gyfer galluogi pobl i gael benthyciad ar delerau cost isel. Cynhelir trafodaethau gydag Undeb Credyd Gogledd Cymru i ystyried cyflwyno cais Ewropeaidd. Gwneir hyn ar y cyd â Chynghorau Conwy â Môn. Y nod yw ceisio datblygu Undeb Credyd sylweddol yng Ngwynedd.

Nododd y Prif Weithredwr parthed diogelwch plant,byddai'n bosibl cyfleu'r neges i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol iddynt ystyried rhoddi'r cyngor priodol i bobl sy'n bwriadu derbyn lletywyr. Gan i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau newydd ar 17 Ionawr 2013, golygai hynny efallai na fydd angen rhoddi gymaint o lwfans yn y Strategaeth Ariannol ar gyfer dirywiad yn y gyfradd casglu Treth Cyngor ac yn wyneb hynny, byddai'n bosibl cynyddu'r gronfa caledi er mwyn lliniaru'r effaith yn y flwyddyn gyntaf.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**5. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd.

Adroddodd y Pennaeth bod Llywodraeth San Steffan o Ebrill 2013, yn diddymu'r cynllun Budd-dâl Treth Cyngor ac yn gostwng y cyllid

perthnasol o 10%, wrth i'r cyfrifoldeb drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Ymhelaethodd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu rheoliadau i sicrhau y byddai pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cyflwyno cynlluniau cyson.

Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru reoliadau gwreiddiol ar 19 Rhagfyr 2012 a oedd yn gostwng y cyllid ar gael o 10%. Fodd bynnag, ar 17 Ionawr 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau drafft newydd 2013 a fyddai'n diwygio'r drefn a chynyddu''r lefel uchaf o gefnogaeth o 90% i 100%. Nododd bod hyn yn newyddion da, gan y byddai'n parhau i ddarparu'r lefelau presennol o gefnogaeth yn 2013/14 i'r hawlwyr, ac yn talu 100% o'r Dreth Gyngor os ydynt yn gymwys. Dan reoliadau 2013, ni fydd rhaid i'r holl hawlwyr sy'n derbyn cefnogaeth dalu cyfran o'u bil treth cyngor, sydd hefyd yn newyddion da i'r Cyngor fel casglwr treth.

Nododd y Pennaeth y cefnogir cost ychwanegol y newid hwn gyda grant £22m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfateb i'r 10% o doriad gan Lywodraeth San Steffan. Eglurodd bod y rheoliadau a'r arian yma'n weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14 yn unig ac i'w adolygu erbyn 2014/15 a bod rhaid i'r Cyngor fabwysiadu cynllun gan adlewyrchu'r newidiadau erbyn 31 Ionawr 2013. Nododd bod y cynllun newydd yn cynnwys ychydig o elfennau dewisol penodol ac mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ynglyn â'r elfennau hyn. Cyfeiriodd at ganlyniadau'r ymgynghoriad a oedd ar sail y rheoliadau gwreiddiol ac oedd wedi cau cyn datganiad y Gweinidog.

Cytunwyd yn y Cabinet ar 22 Ionawr 2013 i gefnogi'r argymhellion diwygiedig ac 'roedd awydd hefyd yn y cyfarfod hwnnw i anfon neges i'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn gofyn iddo weithredu'n gynhwysol a darparu gwybodaeth cynnar ynglyn â'r cynllun arfaethedig a'r ariannu ar ei gyfer yn 2014/15.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu darpariaethau Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (2012), fel y'i haddaswyd gan Reoliadau Diwygio (2013) fel cynllun gostyngiad Treth Cyngor Gwynedd ar gyfer 2013/14, yn amodol ar yr elfennau disgresiwn canlynol -**
**i) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**
**ii) Na ddylid cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol a nodwyd ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**
**iii) Na ddylid cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol a nodwyd ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**
**iv) Gwella'r broses ar gyfer rhoddi gwybod i hawlwyr am benderfyniadau uwchlaw'r gofynion sylfaenol a nodwyd yn y Rheoliadau, os yw hynny'n briodol.**

## 6. MATER BRYS – RHYBUDD O GYNNIG
**Penderfyniad Diweddar Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd**

(Nid oedd yr eitem hon wedi ei chynnwys ar raglen y Cyngor, ond cytunodd y Cadeirydd ei gynnwys dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd y derbyniwyd y wybodaeth ar ôl i'r rhaglen gael ei hanfon at yr aelodau a'r brys i ymateb.)

Nododd y Swyddog Monitro bod angen rhoddi'r Rheolau Sefydlog o'r Neilltu ar gyfer yr eitem hon oherwydd fe'i derbyniwyd yn ddi-rybudd a'r dymuniad i'w drafod yn y cyfarfod heddiw.

**PENDERFYNWYD rhoddi'r Rheolau Sefydlog o'r Neilltu ar gyfer yr eitem hon.**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig brys, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12), oddiwrth y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, yn gofyn am gael trafod y cynnig yn y Cyngor Llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Yn sgîl penderfyniad diweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd, cynigir –*
*a) Bod y Cyngor yn cael cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd i drafod yr oblygiadau ariannol, disgwyliadau ar y gwasanaeth a bod dim newid yn cymryd lle hyd nes bod trafodaethau mwy aeddfed wedi digwydd.*
*b) Ein bod yn gofyn i'r Cyngor Iechyd Cymuned gyfeirio'r mater i'r Gweinidog Iechyd, Lesley Griffiths i'w ystyried"*

Adroddodd yr aelod bod penderfyniad y Bwrdd Iechyd i gau Ysbtyty Goffa Blaenau Ffestiniog yn creu pryder mawr yn lleol. Deellir y symudir y gwelyau oddi yno yn ystod yr wyth wythnos nesaf ond nid oes cynllun busnes wedi ei baratoi hyd yn hyn yn rhoddi manylion am beth sy'n dod yn ei le. 'Roedd hyn yn debygol o gymryd hyd at ddwy flynedd i fynd drwy Lywodraeth Cymru i'w werthuso'n ariannol a.y.

Nododd aelod i'r mater hwn gael ei drafod yng ngyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 17 Ionawr 2013 gyda chais i'w drafod yn y Cyngor heddiw ond gwrthodwyd y cais. Nid oedd ganddo wrthwynediad i rybudd o gynnig yr aelod, ond 'roedd o'r farn bod hyn yn tanseilio'r drefn graffu.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro y derbyniwyd cais i roddi'r mater am drafodaeth ar raglen y Cyngor fel eitem frys ond nad oedd modd yn yr amser oedd ar gael i ddarparu gwybodaeth gefndir ddigonol i ganiatau trafod effaith y penderfyniad ar y Cyngor hwn. Nid yw'r Cabinet eto wedi trafod y goblygiadau i'r Cyngor a cheir cyflwyniad gan

yr Aelod Cabinet Gofal i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2013 ar y drefn gofal a fyddai'n cymryd hyn i ystyriaeth. Mae'r rhybudd o gynnig a gyflwynwyd heddiw yn fater hollol wahanol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r rhybudd o gynnig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.30p.m.

____________________

**CADEIRYDD**